# THE ROUTE TO SUCCESS
# Y LLWYBR AT LWYDDIANT




© Gary Davies Collection / Casgliad Gary Davies

© Gary Davies Collection / Casgliad Gary Davies

**The 18th century saw a great expansion of the Pembrokeshire coal trade. If you had been an industrialist at the time, one of your main concerns would have been transporting your coal to market.**

In 1829 an act of parliament allowed investors to create a transport system which linked the inland collieries by rail to a purpose-built harbour here in Saundersfoot . Originally horse-drawn, the railway consisted of two lines. The first was opened in 1832 and ran up a steep incline before going inland as far as the collieries at Thomas Chapel.

The second line ran along Railway Street (now the Strand). You may be familiar with this route as it is now a popular walk which hugs the coast and runs through tunnels to Coppet's Hall and Wiseman's Bridge.

Steam engines were introduced in the 1870's. The first, the Rosalind, was named after the daughter of the industrialist CR Vickerman. It operated below the incline. Later it was used to transport workers from Stepaside and Kilgetty to the colliery at Bonville's Court. It resembled the trains used during the Boer War, so locals called it 'The Armour' and the miners within it were nicknamed 'The Boers'. The train soon proved popular with visiting photographers and on one occasion it was daubed with the words 'The Miner's Express'.

Another engine, the Bulldog, operated above the incline from 1917.

**Yn y 18fed ganrif gwelwyd ehangiad mawr ym masnach lo Sir Benfro. Pe baech chi wedi bod yn ddiwydiannwr ar y pryd, un o'ch prif ystyriaethau fyddai sut i gludo eich glo i'r farchnad.**

Yn 1829 pasiwyd deddf yn y senedd oedd yn gadael i fuddsoddwyr greu system gludiant oedd yn cysylltu'r pyllau glo mewndirol gyda rheilffordd at harbwr pwrpasol yma yn Saundersfoot. Roedd gan y rheilffordd ddwy lein a byddai'r cerbydau'n cael eu tynnu gan geffylau ar y cychwyn. Agorwyd y gyntaf yn 1832 ac roedd yn dringo allt serth cyn teithio i mewn i'r tir mor bell â glofeydd Thomas Chapel.

Roedd yr ail drac yn rhedeg ar hyd Stryd y Rheilffordd (sef y Strand erbyn hyn). Efallai eich bod yn gyfarwydd â'r daith yma am ei bod yn llwybr cerdded boblogaidd erbyn hyn sy'n cofleidio'r arfordir ac yn mynd drwy dwnelau i Coppet's Hall a Wiseman's Bridge.

Cyflwynwyd peiriannau stêm yn yr 1870au. Enwyd y cyntaf, y Rosalind, ar ôl merch y diwydiannwr CR Vickerman. Roedd yn gweithio islaw'r llethr. Yn ddiweddarach cafodd ei ddefnyddio i gludo gweithwyr o Stepaside a Cilgeti i byllau glo Cwrt Bonville. Roedd yn debyg i'r trenau a ddefnyddiwyd yn ystod Rhyfel y Boer, felly roedd pobl leol yn ei alw 'Yr Arfwisg [The Armour]' a'r glowyr oedd arni 'Y Boeriaid [The Boers]'. Cyn hir roedd y trên yn boblogaidd gyda ffotograffwyr oedd yn ymweld ac ar un achlysur peintiwyd y geiriau 'The Miner's Express' arno.'


Roedd injan arall, y Bulldog, yn gweithio uwchlaw'r llethr o 1917 ymlaen.

## Vickerman's Empire

By the 1860's, English lawyer Charles Ranken Vickerman was central to the development of Saundersfoot. His influence is visible on some of the town's most notable buildings including the Colliery Office (here) and The Captains' Table.

He was a major stock holder in the Pembrokeshire Iron and Coal Company and controlled the harbour, railway, Kilgetty Collieries, the ill - fated Kilgetty Ironworks and Bonville's Court Colliery.

Vickerman used his profits to build himself a house befitting his new station - Hean Castle. Towards the end of his life his fortune began to dwindle. The castle and estate were sold after his death to another coal magnet, William Thomas Lewis (Lord Merthyr), who had made his fortune in the Rhondda.




© Pembrokeshire Coast National Park / Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - Graham Brace

## Ymherodraeth Vickerman

Erbyn yr 1860au, roedd y cyfreithiwr o Loegr Charles Ranken Vickerman yn elfen ganolog yn natblygiad Saundersfoot. Mae ei ddylanwad i'w weld ar rai o adeiladau mwyaf nodedig y dref yn cynnwys Swyddfa'r Lofa (yma) a Bwrdd y Capten.

Roedd yn gyfranddaliwr mawr yng Nghwmni Haearn a Glo Sir Benfro ac roedd yn rheoli'r harbwr, y rheilffordd, Glofeydd Cilgeti, Gwaith Haearn anffodus Cilgeti, a Glofa Cwrt Bonville.

Defnyddiodd Vickerman ei elw i adeiladu tŷ iddo'i hun oedd yn briodol i'w safle newydd - Castell Hean. Tua diwedd ei fywyd dechreuodd ei arian fynd yn brin. Ar ôl ei farwolaeth gwerthwyd y castell a'r ystâd i ŵr mawr arall o'r byd glo, William Thomas Lewis (Arglwydd Merthyr) a wnaeth ei ffortiwn yn y Rhondda.



© Gary Davies Collection / Casgliad Gary Davies



© Gary Davies Collection / Casgliad Gary Davies

Diwydiant Industry

## FOLLOW THE STORY TO...

**Amroth**, an industrial town at the mercy of the sea.
**Burnett's Hill Chapel**, Martletwy, where Miner's sought solace from danger and disaster.
**Colby Woodland Gardens**, where the wealth created by industry is clear to see.
**Cresswell Quay**, where coal was exported for over 700 years.
**Kilgetty Ironworks**, the short lived experiment in local iron making.

## DILYNWCH YR HANES I...

**Amroth**, tref ddiwydiannol yng nghrafangau'r môr.
**Capel Burnett's Hill**, Martletwy, lle ceisiodd y Glowyr ochel rhag perygl a thrychineb.
**Gerddi Coedwig Colby**, lle gallwch weld yn glir y cyfoeth a grëwyd gan y diwydiant.
**Cei Cresswell**, lle cafodd glo ei allforio am fwy na 700 o flynyddoedd.
**Gwaith Haearn Cilgeti**, yr arbrawf byrhoedlog mewn gwneud haearn yn lleol.

PLANED

Cadw

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government